## Cylch Gorchwyl:
## Y PWYLLGOR ADNODDAU A PHERFFORMIAD

Yn adrodd i'r: Cyngor

Yn cwrdd: 5 gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Gorffennaf 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2018; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • 1 Aelod Annibynnol (Cadeirydd), o blith aelodau'r Cyngor<br>• 4 Aelod Annibynnol, y gall hyd at ddau ohonynt fod wedi'u cyfethol neu beidio â bod yn aelodau o'r Cyngor<br>• Cadeirydd y Cyngor<br>• Yr Is-Ganghellor<br>• 1 Aelod o'r Senedd<br>• 1 Aelod o'r Staff Anacademaidd<br>• 1 Aelod o blith y Myfyrwyr<br><br>10 aelod.<br><br>Cworwm: 5 aelod, a'r mwyafrif yn Aelodau Annibynnol. | • Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, neu enwebai<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn cyflawni gwaith craffu ac yn cynghori'r Cyngor ar faterion sy'n cynnwys rheolaeth a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad; denu a chofrestru myfyrwyr, gan gynnwys gweithgarwch rhyngwladol; creu incwm; ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi; ystadau a'r amgylchedd.

---

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell i'r Cyngor eu cymeradwyo:

    a. Strategaethau'n ymwneud â materion sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor, onid ymdrinnir â hwy yn rhywle arall yn y cylch gorchwyl hwn;
    b. Polisïau'n ymwneud â materion sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor, ac y mae'n ofynnol eu cymeradwyo ar lefel llywodraethu am resymau cyfreithiol neu reoleiddiol;
    c. Cyllideb reolaidd flynyddol y Brifysgol;
    d. Newidiadau i gyllideb reolaidd flynyddol y Brifysgol sy'n arwain at warged / diffyg ychwanegol o dros £250k;
    e. Cynigion Cyfalaf Unigol (h.y. cyfarpar neu asedau cyfalaf eraill) sy'n werth dros £2.5m, y gellir darparu ar eu cyfer yng nghyllideb gyfredol y sefydliad; neu sy'n werth dros £250k lle y mae angen darpariaethau ychwanegol yng nghyllideb y sefydliad;
    f. Datganiadau Ariannol Blynyddol y Brifysgol;
    g. Y llythyr cynrychioli blynyddol i'r archwilwyr allanol;
    h. Unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau Ariannol;
    i. Ceisiadau am Gynlluniau Ffioedd a Mynediad;

j. Polisi Ffioedd Dysgu'r Brifysgol, ac unrhyw newidiadau o bwys i'r ffioedd dysgu yn sgil diwygio'r polisi cenedlaethol na ddarperir ar eu cyfer eisoes yn y Polisi Ffioedd Dysgu;
k. Polisi Rheoli Trysorlys y Brifysgol;
l. Trefniadau benthyca newydd a / neu ddiwygiedig;
m. Newidiadau mawr i'r targedau mynediad blynyddol ar gyfer derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol;
n. Prynu, gwerthu neu brydlesu tir a / neu eiddo na chytunwyd arno eisoes mewn egwyddor gan y Cyngor;
o. Sefydlu is-gwmnïau neu ymddiriedolaethau;
p. Cyfraniad y Brifysgol fel cyflogwr i'w chynlluniau pensiwn mewnol; ac
q. Unrhyw faterion eraill a nodir yn y Rheoliadau Ariannol neu'r Gweithdrefnau Ariannol.

2. Ystyried a bod ag awdurdod i gymeradwyo ar ran y Cyngor:

a. Gwerthiant unigol tir ac adeiladau a gymeradwywyd mewn egwyddor gan y Cyngor yn rhan o'r Strategaeth Ystadau;
b. Cynigion Cyfalaf Unigol (h.y. cyfarpar neu asedau cyfalaf eraill) sy'n werth rhwng £1m a £2.5m, y gellir darparu ar eu cyfer yng nghyllideb gyfredol y sefydliad;
c. Cynnydd cronnol o dros 5 y cant yng nghostau prosiectau a gymeradwywyd;
d. Contractau trydydd parti unigol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n werth dros £1m;
e. Dileu dyledion gwael sy'n werth dros £100k; ac
f. Unrhyw faterion eraill fel y'u nodir yn y Rheoliadau Ariannol neu'r Gweithdrefnau Ariannol.

3. Derbyn adroddiadau a chynghori'r Cyngor a / neu'r Is-Ganghellor fel y bo'n briodol ynghylch:

a. Amcangyfrifon yn ystod y flwyddyn o incwm a gwariant (gan gynnwys rhai'n ymwneud â gweithgareddau masnachu), datganiadau llif arian ac amcangyfrif o'r fantolen ar ddiwedd y flwyddyn;
b. Gweithgareddau denu myfyrwyr, rhagamcanion cofrestru, a'r goblygiadau i sefyllfa ariannol y Brifysgol;
c. Dangosyddion Perfformiad allweddol a metrigau eraill i fonitro perfformiad y sefydliad ym meysydd gweithredu'r Brifysgol sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor;
d. Adroddiad blynyddol, datganiadau ariannol, a chyllideb flynyddol Sefydliad y Myfyrwyr;
e. Cynlluniau pensiwn mewnol y Brifysgol;
f. Diwygiadau i'r Gweithdrefnau Ariannol, fel y'u cymeradwywyd gan Weithrediaeth y Brifysgol;
g. Gweithrediadau'r Brifysgol o safbwynt:
    i. Datblygu a Chysylltiadau Alumni;
    ii. Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi;
    iii. Gweithgareddau rhyngwladol;
    iv. Prosiectau Cyfalaf; a
    v. Rheoli ystadau, gan gynnwys defnyddio lle a'r amgylchedd.

Gall y Pwyllgor sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen am gyfnodau penodol i gyflawni'r cyfrifoldebau uchod ar ei ran. Bydd Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor, neu'r Is-Ganghellor yn cytuno ar aelodaeth a threfniadau adrodd y cyfryw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, yn unol â'r gofynion busnes.

---

Gweithredu

Bydd y pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor, a fydd yn amlinellu prif weithgareddau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn academaidd a aeth heibio, gyda phwyslais penodol ar y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y corff llywodraethu yn unol â'r awdurdodau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yn y cylch gorchwyl hwn.

Er mwyn rhoi sicrwydd priodol i'r Cyngor, bydd y Pwyllgor yn:

- Monitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau sefydledig o ran cyllid y Brifysgol a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny;
- Craffu ar baratoi'r gyllideb flynyddol:
- Craffu ar baratoi'r datganiad ariannol blynyddol wedi'i archwilio i'r Cyngor.